**Polisi ar Ddatgan Buddiannau**
**i Aelodau'r Panel Ymgynghorol ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n bwysig bod Aelodau'r Panel Ymgynghorol ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ymddwyn yn ddiduedd, ac yn cael eu hystyried fel rhai sy'n ymddwyn yn ddiduedd. I gefnogi hyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn gweithredu polisi clir ar Ddatgan Buddiannau.

## 2. Y Gofrestr Buddiannau

2.1 Dylai aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes all wrthdaro gyda'u cyfrifoldebau fel Aelodau. Dylid nodi'r rhain yn gynnar, a bydd angen rhoi camau priodol ar waith er mwyn mynd i'r afael â nhw.

2.2 Er mwyn darparu sail ar gyfer hyn, bydd Cofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Panel Ymgynghorol ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei chynnal. Bydd y gofrestr yn rhestru unrhyw fuddiannau personol (megis rhai sy'n deillio o gyflogaeth Aelod, busnes, tirfeddiannaeth neu gwmni y mae gan Aelod fuddiant llesiannol ynddo), y gall cyd-Aelodau, staff OGCC neu aelodau'r cyhoedd eu hystyried fel rhai all ddylanwadu ar farn. Bydd hefyd yn cynnwys buddiannau Aelodau nad ydynt yn rhai ariannol (er enghraifft, buddiannau'n deillio o glybiau neu sefydliadau eraill) a buddiannau aelodau agos o'r teulu, unrhyw berson sy'n byw yn yr un aelwyd â'r Aelod neu unrhyw berson y gallai'r Aelod fod â pherthynas bersonol agos ag ef, os ydynt yn ymwneud yn agos â gweithgareddau OGCC.

2.3 Bydd gofyn i Aelodau lenwi ffurflen 'Datgan Buddiannau' OGCC pob blwyddyn. Wrth lenwi'r ffurflen, yn ogystal â datgan buddiannau presennol, bydd gofyn i Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol yn y gorffennol yn ystod y ddwy flynedd cyn cael eu penodi i Banel Ymgynghorol OGCC a/neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ogystal, bydd gofyn i Aelodau ddiweddaru eu datganiadau os bydd amgylchiadau'n newid, a dylent roi gwybod i Ysgrifennydd y Panel Ymgynghorol. Bydd hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd i sicrhau bod y Gofrestr yn gyfredol.

2.4 O ystyried natur rôl Aelod, mae'n bosib na fydd unrhyw un sy'n cael ei benodi i gorff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon, neu a gyflogir gan gorff o'r fath, yn gallu bod yn Aelod Panel Ymgynghorol OGCC a/neu Aelod Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar yr un pryd. Mae rhai eithriadau i hyn, megis amgylchiadau pan fydd Aelod yn cael ei benodi i fod yn rhan o fwrdd neu bwyllgor fel aelod allanol annibynnol at ddibenion craffu (er enghraifft, ar bwyllgor archwilio), neu i rôl ar Fwrdd os yw'r Ombwdsmon yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro gyda'r rôl ar y Panel Ymgynghorol a/neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Fodd bynnag, byddai hyn ar ddisgresiwn yr Ombwdsmon ar sail achosion unigol. Cynghorir bod Aelodau sy'n ymgeisio am rolau o'r fath gyda chyrff y tu allan i awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn trafod y gwrthdaro posib cyn derbyn penodiadau newydd, os ydynt yn bwriadu parhau i fod yn aelod o Banel Ymgynghorol OGCC a/neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pan fydd aelod yn derbyn rôl gyda chorff o fewn awdurdodaeth OGCC, rhaid iddynt ddiweddaru'r ffurflen Datgan Buddiannau ar unwaith, sy'n cael ei chyhoeddi ar wefan OGCC, ac os bydd unrhyw drafodaethau mewn cyfarfodydd Panel Ymgynghorol neu Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ymwneud â'r corff y mae'n aelod ohono, rhaid iddo ddatgan buddiant ar ddechrau'r cyfarfod a gadael yr ystafell drwy gydol y drafodaeth.

2.5 Yn ogystal, disgwylir i Aelodau adolygu eu ffurflenni Datgan Buddiannau'n flynyddol, ar neu cyn 1 Ebrill pob blwyddyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol yn cael ei chyhoeddi ar wefan OGCC.

2.6 Ni ddylai aelodau gymryd rhan yn y drafodaeth na phenderfynu ar faterion y mae ganddynt fuddiant personol ynddynt y gall aelod o'r cyhoedd feddwl yn rhesymol fyddai'n dylanwadu ar eu barn ar y mater o wybod y ffeithiau perthnasol.

2.7 Mewn achosion eraill, dylai Aelodau ystyried a fyddai cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r broses benderfynu ar fater yn awgrymu perygl go iawn o duedd, neu ganfyddiad o duedd, o ran aelod o'r cyhoedd gyda gwybodaeth dda. Dylid dehongli hyn drwy ystyried a all Aelodau fod yn annheg o blaid, neu yn erbyn, achos parti sydd ynghlwm wrth y mater dan ystyriaeth. Wrth ystyried a oes perygl go iawn o duedd neu ganfyddiad o duedd mewn perthynas â phenderfyniad penodol, dylai Aelodau asesu a ydyn nhw, aelod agos o'u teulu, person sy'n byw yn yr un aelwyd, perthynas bersonol agos neu gwmni, busnes neu sefydliad arall y mae'r Aelod yn ymwneud ag ef yn debygol o gael eu heffeithio fwy na'r rheiny fyddai'n cael eu heffeithio'n gyffredinol gan y penderfyniad dan sylw. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys penderfyniad i wahodd ceisiadau am dendrau ar gyfer contract lle byddai cwmni y mae Aelod yn ymwneud ag ef yn llawer mwy tebygol o'i ennill na chwmnïau eraill.

2.8 Os nad yw Aelodau'n cymryd rhan yn y drafodaeth i benderfynu ar fater yn unol â'r uchod, dylent adael y cyfarfod. Mae hyn oherwydd gall presenoldeb rhywun sydd wedi datgan buddiant gael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n debygol o ddylanwadu ar farn Aelodau eraill sy'n bresennol.

2.9 Os caiff unrhyw gŵyn ei chyflwyno am aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu'r Panel Ymgynghorol o ran eu hymddygiad yn eu swydd fel aelod annibynnol o'r pwyllgor neu'r panel, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried yr achos yn bersonol.

2.10 Gall aelod sy'n methu â chydymffurfio â'r Polisi hwn sydd wedi (neu fydd o bosib yn) niweidio enw da OGCC arwain at yr Ombwdsmon yn dileu rôl yr Aelod ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu'r Panel Ymgynghorol ar unwaith heb roi rhybudd.

## 3. Datgan Buddiannau mewn Cyfarfodydd Panel Ymgynghorol/Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

3.1 Er bod gan yr Ysgrifennydd Gofrestr o Fuddiannau, dylai Aelodau'r Panel Ymgynghorol ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddatgan eu buddiannau ym mhob cyfarfod lle mae materion sy'n cael eu trafod, neu a fydd yn cael eu trafod, yn effeithio ar eu buddiannau (neu fuddiannau'r teulu). I helpu gyda hyn, 'Datgan Buddiannau' fydd eitem gyntaf ar agenda pob cyfarfod, fel bod Aelodau'n cael cyfle i ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau posib all ddeillio o unrhyw rai o'r eitemau busnes ar agenda'r cyfarfod penodol hwnnw.

**************************************************